

PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU
(Arolygiadau Safle)

21 Mehefin 2021

Yn bresennol: Cynghorydd R Owens (Cadeirydd)

Cynghorydd P Harries, Dr M Havard, Mrs S Hoss, Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Cynghorydd P Kidney (safleoedd Aberllydan yn unig), Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd A Wilcox, Cynghorydd M Williams (safleoedd Aberllydan yn unig) a'r Cynghorydd S Yelland.

Swyddogion yn bresennol: Mrs N Gandy, Ms K Atrill, Mrs C Llewellyn.

(Arolwg Safle: Ringstone, Aberllydan 10.00 a.m. – 10.35; Bower Farm Aberllydan 10.55 – 11.25 a.m; Pencastell, Trewyddel 12.45 p.m – 1.20 p.m.)

1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd P Baker BEM, Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd M Evans, Dr R Heath-Davies, Mrs J James a Dr RM Plummer.

2. NP/21/0102/FUL – Dymchwel y tŷ preswyl presennol a'r garej. Adeiladu tŷ preswyl a garej newydd - Ringstone, Rhiw Haroldstone, Aberllydan.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Aelodau i'r cyfarfod a'u hatgoffa mai diben yr arolygon safle y diwrnod hwnnw oedd galluogi'r Aelodau i ymgyswrtio â safleoedd y ceisiadau a'r ardaloedd cyfagos. Ni fyddai trafodaeth yn digwydd na phenderfyniad yn cael ei wneud tan i'r ceisiadau cynllunio gael eu hystyried mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn y dyfodol.

Atgoffwyd yr Aelodau bod pob cais wedi'u hystyried yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2021 pan gafodd y ceisiadau eu gohirio er mwyn cynnal arolwg safle.

Ar ôl cael golwg ar y tŷ presennol, aeth yr Aelodau rhagddynt i gael golwg ar y safle o ardd y tŷ y drws nesaf, yr oedd meddianwyr y tŷ hwnnw wedi gwrthwynebu'r cais o ran preifatrwydd. Dywedodd y swyddog y byddai sawl ffenestr yn wynebu'r cymydog, ar ongl letraws ond hefyd ar lefel uwch ar bellter o rhyw 14m.

Gan ddiolch i bawb oedd yn bresennol, gohiriodd y Cadeirydd y cyfarfod i ganiatáu i'r Aelodau deithio i'r safle nesaf.



3. NP/21/0215/FUL – Addasu ac ymestyn y sgubor bresennol yn annedd tair ystafell wely. Gwaredu'r garafan breswyl sefydlog bresennol. Adeoli'r sgubor bresennol a'i disodli â stabl - Bower Farm, Broad Haven

Eglurodd y swyddog bod yr egwyddor o addasu adeilad yn dderbyniol, ond bod y swyddogion yn anfoddog â dyluniad yr estyniad gan bod hynny yn newid golwg y sgubor i raddau helaeth. Ychwanegodd bod arolwg strwythurol wedi dod i law oedd yn cadarnhau bod modd i'r sgubor gael ei haddasu.

Gan ddiolch i'r Aelodau am ddod i gael golwg ar y safle, eglurodd yr ymgeisydd ei bod wedi marcio lleoliad yr estyniad, ac aeth y Pwyllgor ymlaen i gerdded o gwmpas llinell allanol yr estyniad.

Gan ddiolch i bawb oedd yn bresennol, gohiriodd y Cadeirydd y cyfarfod i ganiatáu i'r Aelodau deithio i'r safle nesaf.

4. NP/21/0110/FUL – Codi tŷ newydd yn lle'r tŷ presennol - Pen-castell, Trewyddel

[Cymerodd Dr M Havard, y Dirprwy Gadeirydd, y Gadair gan fod y Cadeirydd yn hwyr yn cyrraedd.]

Eglurodd y swyddog ei bod ar ddeall erbyn hyn bod yr eiddo wedi'i adeiladu yn wreiddiol yn bedwar tŷ i weithwyr amaethyddol a addaswyd yn un tŷ yn yr 1930au. Roedd yr egwyddor o'i ddisodli yn dderbyniol gan fod y Swyddog Cadwraeth Adeiladau wedi rhoi gwybod nad oedd yr adeilad o rinwedd pensaernïol na hanesyddol arbennig. Serch hynny roedd y swyddogion yn anfoddog ag uchder a dyluniad y tŷ newydd oherwydd ei safle amlwg ar ben y glogwyn ac mor agos i Lwybr yr Arfordir. Hefyd dywedodd y cynigir symud ôl-troed y tŷ yn agosach at ymyl y glogwyn, a bod cais wedi'i wneud am arolwg daearegol.

Aeth yr Aelodau rhagddynt i gerdded o gwmpas yr eiddo presennol, gan nodi lleoliad llwybr yr arfordir ac ymyl y glogwyn.

Daeth hyn â'r Ymweliad Safle i ben.

